# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 11ed Rhagfyr 2023
Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Deio Williams, Alan Hughes, Gareth Jones, Chris Brady, Catrin Williams, Henry Hughes, John Davies.

Ymddiheuriadau: Alun Williams, Sioned Pearson

1. Cadeiriwyd gan Henry Hughes ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Cafwyd cadarnhad fod y gronfa ar agor, gofynnodd y Clerc i Chris Brady gyflwyno'r amcan bris yn ffurfiol iddi er mwyn ei gyflwyno gyda'r cais am grant.
   b. **Tir Garnfadryn-** Dim datblygiad
   c. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cysylltodd y Clerc a'r cwmni e-geo Solution Ltd gan gadarnhau fod y Cyngor yn awyddus i symud ymlaen a'r cam cyntaf. Gofynwyd am fap o'r safle, cyflwynodd y Clerc hyn iddynt. Bydd y cwmni yn cysylltu ar ol cwblhau y cam yma.
   Ch.**Llainfatw –** Cysylltodd y Clerc a'r cyfreithiwr Michael Straen, dywedodd y byddai'n fodlon iawn dod i gyfarfod a'r Cynghorwyr er mwyn trafod y ffordd ymlaen – penderfynwyd mai gwell fyddai i Sian Parri gysylltu a Michael Straen yn bersonnol gan mai hi sydd yn ymweneud mwyaf a'r ddwy elusen.
   d. **Traffic a'r lon yr ysgol –** Gan nad oes unrhyw waith wedi digwydd gan yr adran traffic bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran gan ofyn am ddiweddariad.

dd. **Llwybyr yr arfordir –** Ni chafwyd ymateb hyd yma.

e. **Archwyliad Allanol –** Cafodd y Clerc gyfarfod rhithiol gyda Audit Wales – bydd canlyniad yn cael ei dderbyn yn y dyddiau nesaf.

f. **Uned Iaith –** Derbynwyd ymateb gan pennaeth Ysgol Tudweiliog yn datgan nad oes gan yr Ysgol brofiad uniongyrchol o hyn eto gan nad oes disgybl wedi bod yn mynychu'r uned o dan y drefn newydd, ond y bydd un yn mynychu rhwng y Dolig a Pasg nesaf – amser a ddengys pa effaith fydd mynychu pedwar diwrnod a diwrnod yn yr Ysgol yn ei gael – yn amlwg roedd y Pennaeth yn ymwybodol y gallai hyn olygu y bydd angen troi i'r Saesneg hefo'r disgybl ar y cychwyn.

ff. **Prosiect Perthyn –** Cafwyd pleidlais i benderfynnu os fyddai Cyngor Cymuned Tudweiliog yn cael ei ddynodi yn 'Ardal o Arwyddocad Ieithyddol' – penderfynwyd yn unfrydol i'w ddynodi.

g. **Dwr yn croni wrth tro Weirglodd a ger Plas Ymhenllech –** Cafwyd cadarnhad fod gweithwyr y Cyngor Sir wedi mynychu'r ddau safle.

Ng. **Tyllau yn y lon ger Bryn Awel, Garfadryn –** Ni chafwyd ymateb hyn yma.

4. Gohebiaeth:

   a. **Gwarchod y Gymraeg yn ein hysgolion –** Derbynwyd ebost gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts yn gofyn I'r cyngor Cymuned gefnogi'r alwad i ddynodi ein hysgolion yn rhai Cymraeg penodedig gan gryfhau'r polisi iaith – gellid gwneud hynny drwy anfon copi o lythyr (oedd wedi ei gynnwys) yn enw Cyngor Cymuned Tudweiliog at yr Adran Addysg y Cyngor Sir – penderfynwyd i'r Clerc wneud hyn.

   b. **Precept –** Penderfynwyd codi'r precept 2024/25 i £10,000.00 a hynny oherwydd costau posib fydd yn gwynebu'r Cyngor Cymuned os bydd symud ymlaen gyda'r Fynwent Newydd.

   c. **Talu Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu

   d. **Adran 137 –** Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am yr adran 137 I'r Cynghorwyr gael golwg arno.

5. Unrhyw Fater Arall:-

   a. Derbynwyd pryder fod cyflwr y Bont droed fechan wrth Felin Tudweiliog yn eithriadol ddrwg – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Ionawr 8ed 2024 am 7.30yh
Festri Capel Dinas.